Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Beth sydd mewn llifddwr?

**Mae llifddwr yn gallu cynnwys pob math o bethau drwg. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at beryglon posibl a bydd y rhestr yn helpu i atgyfnerthu'r neges i aros allan o lifddwr.**



## DŴR

**Mae llifddwr yn achosi perygl o anaf personol neu foddi.**

**Grym dŵr**

Mae dim ond 15cm (6 modfedd) o ddŵr cyflym sy'n llifo yn gallu llorio person.
Mae 30cm (1 troedfedd) o ddŵr sy'n symud yn ddigon i wneud i gar teuluol cyffredin arnofio. Bydd 60cm (2 droedfedd) o ddŵr sy'n symud yn ysgubo'r rhan fwyaf o gerbydau i ffwrdd.

**Dargludydd trydan**

Fel dargludydd trydan, mae llifddwr yn gallu bod yn beryglus os yw llinellau trydan byw wedi cwympo i mewn i'r dŵr.



## PRIDD

**Un o nodweddion llifddwr yw ei bod hi'n anodd gweld trwyddo, gan ei fod yn aml yn cynnwys gweddillion a gwaddodion.**



## PERYGLON CUDD

**Pethau miniog e.e. hoelion / gwydr wedi torri**

Mae pethau miniog sy'n gallu trywanu neu dorri'r croen, fel metel a gwydr wedi torri, yn gallu cael eu cario gan lifddwr / gallu cael eu cuddio mewn llifddwr.

**Peryglon baglu**

Bydd llifddwr yn cuddio peryglon baglu fel twll archwilio sydd â'r caead wedi'i godi, cyrbiau a stepiau.



## LLYGRYDDION AMGYLCHEDDOL

Mae llifddwr yn aml yn cael ei halogi gan ddŵr ffo amaethyddol, carthion amrwd o systemau carthffosiaeth sy'n gorlifo, petrol ac olew o gerbydau a chemegion diwydiannol peryglus. Mae'r rhain yn gallu achosi niwed eang a hirdymor i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

Mae hyd yn oed sylweddau nad ydyn nhw'n cael eu hystyried yn niweidiol i'r amgylchedd a bywyd gwyllt, fel llaeth, yn gallu achosi llygredd amgylcheddol. Os yw llaeth o ffermydd llaeth yn halogi llifddwr, mae'n gallu bod 400 gwaith yn fwy llygrol na charthion domestig heb eu trin.



## CLEFYDAU A HEINTIAU

Mae llifddwr sydd wedi'i halogi gan ddŵr ffo amaethyddol, carthion amrwd a chemegion diwydiannol peryglus yn beryglus i iechyd pobl, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

Gallai bacteria niweidiol, fel E. coli, fod mewn llifddwr, felly mae'n bwysig glanhau a diheintio eiddo ac eitemau sydd wedi dod i gysylltiad â llifddwr. Dylai pob bwyd sydd wedi bod mewn cysylltiad â llifddwr gael ei daflu a dylai pobl osgoi dŵr yfed o'r prif gyflenwad tan y bydd yr awdurdod lleol neu'r cyflenwr dŵr wedi dweud ei fod yn ddiogel.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**www.cyfoethnaturiol.cymru**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government